Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
—
Welsh Parliament
**Equality, Local Government and Communities Committee**

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

---

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Sophie,

**Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2020**

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 30 Tachwedd pan oeddem yn cynnal gwaith craffu ar eich adroddiad blynyddol 2019/20.

Yn dilyn y sesiwn, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r meysydd nad oeddem wedi gallu eu trafod yn ystod y cyfarfod.

- Trafnidiaeth – a wnewch chi amlinellu pam eich bod o'r farn bod yna fwlch gweithredu mewn perthynas â chanllawiau WelTAG? A allwch chi roi enghreifftiau penodol o brosiectau, a pham nad ydyn nhw'n cydymffurfio â'r canllawiau? Sut ydych chi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartïon perthnasol eraill i fynd i'r afael â hyn?
- Cynllunio – a wnewch chi egluro a yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn adlewyrchu'r cyngor rydych wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ar hyn? A oes unrhyw feysydd penodol sy'n peri pryder i chi?
- Addysg – a allwch chi roi manylion unrhyw drafodaethau a gawsoch gyda Llywodraeth Cymru am y cynigion yn eich papur gwyn, Addysg Addas ar gyfer y Dyfodol?
- Datgarboneiddio – ymhellach i'r atebion a roesoch i gwestiynau Huw Irranca Davies ar hyn, a wnewch chi amlinellu a yw'ch tîm wedi bod yn rhan o ddatblygu cynllun cyflawni carbon isel nesaf Llywodraeth Cymru, sydd i'w gyhoeddi yn 2021?
- Iechyd – Rydych chi wedi mynegi pryder yn y gorffennol ynghylch graddfa a diffyg cyflymder ymgorffori'r Ddeddf yn y sector iechyd, ac wedi awgrymu y gallech chi ddefnyddio'ch pwerau adolygu Adran 20 i

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCymunedau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCommunities@senedd.wales
0300 200 6565

ymchwilio i hynny. A ydych chi wedi gweld unrhyw newidiadau cadarnhaol dros y 12 mis diwethaf, a pha gamau ydych chi'n eu cymryd i gyflymu'r broses o gymryd camau?

A hynny, mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau ar adroddiadau blynyddol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gwnaethoch egluro eich bod chi'n ystyried yr adroddiadau i nodi meysydd arfer da neu lle mae cynnydd yn cael ei wneud neu bod angen gwella; gwnaethoch gynnig rhoi enghreifftiau o'r rheini, a byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu'r wybodaeth hon gyda ni.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.